Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM
HM Courts & Tribunals Service

EX710

A gaf i siarad am fy achos y tu allan i'r llys?

Arweiniad i ddefnyddwyr y llys teulu

Ynghylch y daflen hon

Bwriedir y daflen hon ar gyfer pobl sy'n rhan o achosion teulu sy'n ymwneud â phlant. Mae'n esbonio:

- pam y ceir rheolau am siarad am achos y tu allan i'r llys;
- pryd y cewch siarad am eich achos; a
- sut y gallwch rannu gwybodaeth am eich achos yn ddiogel.

Mae hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd os bydd rhywun yn siarad am achos pan na ddylent wneud hynny.

Nid yw'r daflen hon yn berthnasol i **achosion mabwysiadu** a **lleoli** nac i **geisiadau am orchmynion rhiant** (dan y Ddeddf Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg), gan fod rheolau gwahanol mewn lle ar gyfer y rhain.

A oes rheolau am siarad am achos y tu allan i'r llys?

Oes. Weithiau, gelwir rhannu gwybodaeth am achos yn 'datgelu gwybodaeth' neu 'cyfathrebu gwybodaeth'. Mae rheolau yn y llys teulu am yr hyn y gallwch ei ddweud a pha wybodaeth y gallwch ei rhannu am eich achos y tu allan i'r llys.

Mae rheolau'r llys yn eich caniatáu i gyfathrebu gwybodaeth am eich achos i bobl eraill ond mewn amgylchiadau penodol yn unig i ddiogelu preifatrwydd pobl eraill sy'n gysylltiedig â'ch achos – yn enwedig plant.

Pryd y gallaf siarad am fy achos?

Dim ond yn yr amgylchiadau penodol hyn y cewch siarad am eich achos:

- Cewch drafod unrhyw beth am eich achos:

– â'ch cynrychiolwyr cyfreithiol;

– â phartïon eraill sy'n gysylltiedig â'r achos a'u cynrychiolwyr cyfreithiol;

– ag arbenigwr sydd wedi'i benodi gan y llys;

– â swyddogion Cafcass;

– â swyddogion achosion teulu yng Nghymru; a

– Gwarcheidwaid Plant sy'n gysylltiedig â'r achos.

• Hefyd, cewch siarad ag unrhyw unigolyn arall yr ydych yn ystyried yn addas, ond am un o'r rhesymau isod yn unig:

– **i gael cyngor cyfrinachol a chymorth i'ch helpu chi i gyflwyno eich achos, neu i gael cymorth yn ystod achosion** – er bod yn rhaid i'r trafodaethau rhyngoch chi â'r person y gofynnwch iddo am y cyngor a'r cymorth fod yn gyfrinachol;

– **i gael gwasanaeth cyfryngu neu help i ddatrys anghytundeb** rhyngoch chi ac unrhyw barti arall sy'n gysylltiedig â'r achos; neu

– **i fynd ar drywydd cŵyn a wnaethoch, neu yr ydych eisiau ei gwneud,** am yr achos neu am rywun sy'n gysylltiedig â nhw (megis tyst arbenigol).

Beth gaf i ei ddweud am fy achos?

Cewch rannu unrhyw wybodaeth am yr achos yn yr amgylchiadau a grybwyllir uchod, ac eithrio dyfarniad drafft (un nas cwblhawyd eto ac na roddwyd yn ffurfiol gan y llys). Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig am eich achos, neu unrhyw beth a drafodwyd yn y llys neu'r tu allan. Mae hyn yn golygu y cewch rannu gwybodaeth a gaiff ei chynnwys mewn:

• dogfennau ar ffeil y llys;

• tystiolaeth a roddir yn y llys, megis datganiadau mewn dogfen neu ddatganiadau a roddir mewn ymateb i gwestiynau;

• adroddiadau;

• y dyfarniad; neu

• unrhyw resymau a roddir gan y barnwr neu'r ynadon am y penderfyniadau a'r gorchmynion a wnânt.

Ni chaiff y bobl na'r sefydliadau y siaradwch â nhw ond defnyddio'r wybodaeth a ddywedwch wrthynt am y rheswm y'i cawsant – er enghraifft ni ellir defnyddio gwybodaeth a roddwyd at ddibenion cyfryngu ar gyfer unrhyw beth arall. Os byddent yn defnyddio'r wybodaeth at ddibenion eraill gallent fod yn dirmygu'r llys a gallent wynebu cosb gan y llys.

Cofiwch bob amser barchu preifatrwydd y bobl sy'n gysylltiedig â'ch achos cyn rhannu gwybodaeth breifat amdanynt

A gaf i siarad am fy achos am unrhyw resymau eraill?

Os oes arnoch eisiau siarad am eich achos am reswm na gaiff ei gynnwys yn y daflen hon, dylech ofyn i'ch cynrychiolydd cyfreithiol beth y gallwch ei ddweud a gyda phwy y gallwch siarad. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod rhai sefyllfaoedd penodol eraill lle caniateir i chi siarad am eich achos - er eich bod, yn yr amgylchiadau hyn, yn cael eich cyfyngu gan reolau penodol o safbwynt yr hyn y gallwch ei ddweud a gyda phwy y gallwch siarad. Os nad yw'r rheswm pam yr ydych eisiau siarad am eich achos yn cael ei gynnwys dan sefyllfa benodol, bydd angen i chi gael caniatâd i siarad amdano oddi wrth y barnwr neu'r ynadon.

Os ydych yn eich cynrychioli eich hun, dylech **chi** ofyn i'r barnwr neu ynadon a ganiateir i chi rannu gwybodaeth yn y ffordd yr ydych eisiau ei rhannu. Ni ddylech siarad am eich achos nes eich bod wedi cael cyngor cyfreithiol, neu wedi trafod y mater gyda'r barnwr neu ynadon.

Os oes arnoch eisiau siarad am eich achos am reswm na gaiff ei grybwyll yn y daflen hon, bydd angen i chi ofyn am ganiatâd gan y llys yn gyntaf.

Pwy sy'n cael siarad am fy achos?

Caiff unrhyw barti sy'n gysylltiedig â'r achos llys, er enghraifft:

- rhiant;
- yr awdurdod lleol mewn achosion gofal; neu
- plentyn, os ydynt yn barti yn yr achos

siarad, neu rannu gwybodaeth am eich achos yn y ffordd a ddisgrifir yn y daflen hon. Cânt siarad am yr achos yn bersonol neu drwy eu cyfreithiwr.

Dim ond yn yr amgylchiadau penodol a ddisgrifiwyd yn flaenorol y cânt siarad am eich achos. Os byddant angen caniatâd y barnwr i siarad am yr achos, cewch gyfle i ddweud wrth y llys ydych chi'n credu y dylent gael caniatâd i rannu'r wybodaeth neu beidio.

Beth am y cyfryngau?

Mae'r cyfryngau yn cael mynychu achosion teulu mewn unrhyw lys. Er hynny, ceir cyfyngiadau ar yr hyn y gallant adrodd amdano – er enghraifft, mae'n bosib na chânt bob amser gyhoeddi manylion yr hyn a ddigwyddodd mewn llys nac yr hyn a ddywedwyd mewn tystiolaeth – yn enwedig mewn achosion sy'n cynnwys plant.

Am ragor o wybodaeth, gwelwch daflen **EX711: 'A gaiff y cyfryngau fynychu fy achos llys?'** sydd ar gael o hmctsformfinder.justice.gov.uk

A gaiff y sawl rwyf yn siarad ag ef drafod fy achos gydag unrhyw un arall?

Os ydych wedi siarad gyda rhywun am eich achos at ddibenion cyfryngu neu ymchwilio i gŵyn, mae'n bosib y bydd y sawl y siaradoch gydag ef eisiau pasio'r wybodaeth ymlaen i rywun arall er mwyn eich helpu i ddatrys eich problem neu'ch cŵyn. Yr enw ar hyn yw 'datgelu ymlaen'. Bydd yn rhaid iddynt ofyn i chi gytuno i ganiatáu iddynt wneud hyn. Cewch roi eich cytundeb ar lafar neu drwy ei ysgrifennu. Er hynny, mae'n well rhoi eich caniatâd yn ysgrifenedig fel na cheir dim camddealltwriaeth am yr hyn y cytunwyd arno.

Os mai'ch rheswm am siarad â rhywun am eich achos oedd dim ond i gael cyngor neu gymorth, ni chaiff y person hwnnw siarad â neb arall am yr hyn a ddywedoch wrthynt. Mae hyn oherwydd bod rheolau'r llys yn dweud bod rhaid i'r wybodaeth hon aros yn gyfrinachol.

Os yw'r unigolyn y gwnaethoch siarad gydag eisiau datgelu eich gwybodaeth ymlaen, ni chânt ond gwneud hynny am yr un rheswm ag y rhoddwyd y wybodaeth iddynt a bydd arnynt angen eich cytundeb yn gyntaf. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r bobl y mae'r trydydd parti yn rhannu'r wybodaeth gyda nhw. Er enghraifft, os yw'r wybodaeth y gwnaethoch ei rhannu at bwrpas cŵyn, gall yr unigolyn hwnnw y gwnaethoch rannu'r wybodaeth gyda nhw, rannu gwybodaeth ag eraill dim ond at bwrpas yr un gŵyn, a dim ond os oes ganddynt eich caniatâd.

Os bu'n rhaid i chi gael caniatâd gan y barnwr i rannu gwybodaeth

Os bu'n rhaid i chi gael caniatâd gan y barnwr i siarad am eich achos, bydd angen i chi ofyn i'r llys a wnaiff ganiatáu i'r sawl y siaradoch gydag ef am eich achos ddatgelu'r wybodaeth ymlaen, ac os felly sut y gallant wneud hyn.

Cofiwch…

Dylech gofio y gall partïon eraill sy'n gysylltiedig â'r achos ddweud wrth bobl am yr achos a rhannu'r wybodaeth yr ydych wedi ei darparu yn yr achos heb ofyn am eich cytundeb. Mae modd i'r wybodaeth hon hefyd gael ei datgelu ymlaen heb eich caniatâd.

Ni chewch chi, na'r bobl yr ydych yn rhannu'r wybodaeth gyda nhw, rannu gwybodaeth am eich achos gyda'r cyhoedd yn gyffredinol, nac wrth ran o'r cyhoedd dan y rheolau hyn.

Os ydych chi, neu berson arall, eisiau cyhoeddi gwybodaeth am yr achos wrth y cyhoedd, bydd angen i chi geisio caniatâd y barnwr.

Gall y llys gyfyngu neu awdurdodi datgelu gwybodaeth mewn unrhyw achos. Os oes gennych bryderon am wybodaeth yn cael ei datgelu gan rywun arall, dylech ofyn i'r llys ystyried cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth.

Sut y caf fi rannu gwybodaeth am fy achos?

Cewch rannu gwybodaeth am eich achos ar lafar neu drwy ei hysgrifennu. Mae hyn yn cynnwys anfon dogfennau at rywun drwy'r post neu e-bost. Er hynny, ni chewch rannu gwybodaeth drwy gyfrwng fforymau gwe na blogiau oherwydd y bydd hyn yn gwneud y wybodaeth ar gael i'r cyhoedd. Nid yw'r rheolau ond yn caniatáu i chi siarad am eich achos gyda sefydliadau neu bobl unigol - nid ydynt yn caniatáu i chi rannu gwybodaeth gyda'r cyhoedd yn gyffredinol na gyda rhan o'r cyhoedd.

Sut y gallaf rannu gwybodaeth am fy achos yn ddiogel?

Mae'n hanfodol eich bod yn rhannu gwybodaeth am eich achos mewn modd diogel. Y rheswm am hyn yw oherwydd y gallai'r wybodaeth gynnwys manylion sensitif neu bersonol iawn amdanoch chi neu barti arall sy'n gysylltiedig â'r achos, gan gynnwys plant.

Hefyd, os ydych yn rhannu gwybodaeth mewn modd nas caniateir gan y gyfraith, gallech fod yn dirmygu'r llys, neu gallech hyd yn oed fod wedi cyflawni trosedd. Gallai hyn eich gwneud yn agored i risg o gael cosbau difrifol.

Dyma rai canllawiau syml i'w dilyn wrth siarad am eich achos:

- Os ydych yn anfon gwybodaeth drwy'r post neu'r e-bost, gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi enw'r sawl yr ydych yn ei hanfon ato. Dylech hefyd nodi 'preifat a chyfrinachol' ar y wybodaeth. Peidiwch ag anfon e-bost i gyfeiriad cyswllt cyffredinol sefydliad.
- Gwnewch yn siŵr fod y sawl yr ydych yn rhannu'r wybodaeth gyda nhw'n deall pam eu bod yn ei chael ac na allant ond defnyddio'r wybodaeth am y rheswm y'i cawsant ar ei gyfer.

- Gwnewch yn siŵr fod yr unigolyn hwnnw hefyd yn deall bod yr wybodaeth yr ydych chi'n ei rhannu gyda hwy yn gyfrinachol, a ydynt yn cael rhannu'r wybodaeth gyda phobl eraill ai peidio, ac a oes arnynt angen eich caniatâd i wneud hynny. Mae'n syniad da cyfathrebu'r wybodaeth hon yn ysgrifenedig fel ei bod yn glir i'r ddau ohonoch.
- Cadwch gofnod manwl o ba ddogfennau rydych wedi'u rhannu, gan gynnwys enw, teitl swydd a manylion cyswllt y sawl y gwnaethoch eu rhannu gyda nhw. Dylech hefyd wneud nodyn o'r rheswm pam y gwnaethoch benderfynu rhannu'r wybodaeth gyda nhw, a'r hyn y gwnaethoch ei ddweud wrthynt am ddatgelu ymlaen.

Beth sy'n digwydd os bydd rhywun yn siarad am achos pan na ddylent wneud hynny?

Os bydd rhywun yn siarad am achos pan na ddylent wneud hynny, dylech ddweud wrth y llys ar unwaith. Dylech roi cymaint o wybodaeth ag sydd gennych am:

- yr hyn a ddywedodd y sawl;
- gyda phwy y gwnaethant siarad;
- yr hyn a wyddant am yr achos; a
- pha ddogfennau sydd ganddynt.

Os yw'r sawl yn rhywun yr ydych wedi siarad â nhw am eich achos, dylech hefyd ddweud wrth y llys am:

- unrhyw gyfathrebu a fu rhyngoch chi â'r unigolyn hwnnw;
- y rheswm neu'r rhesymau pam y gwnaethoch siarad am eich achos gyda nhw; ac
- a roesoch eich caniatâd i ddatgelu'r wybodaeth ymlaen.

Os bydd rhywun yn siarad am achos pan na ddylent wneud hynny, gallent fod yn dirmygu'r llys. O'r herwydd, os gwyddoch fod rhywun wedi siarad am achos pan na ddylent fod wedi gwneud, dylech ddweud wrth y llys cyn gynted â phosib er mwyn gwarchod y bobl - yn enwedig y plant - sy'n gysylltiedig â'r achos.

Ble caf ragor o wybodaeth?

Am fanylion manwl am reolau trefniadaeth y llys teulu, ewch i:

www.justice.gov.uk

Amdanom ni

Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn un o asiantaethau'r Weinyddiaeth Cyfiawnder. Mae'r asiantaeth yn gyfrifol am weinyddu'r llysoedd troseddol, y llysoedd sifil, y llysoedd teulu a'r tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, a'r tribiwnlysoedd heb eu datganoli yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n darparu system gyfiawnder deg, effeithlon ac effeithiol a weithredir gan farnwriaeth annibynnol.

Nod Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yw sicrhau bod pob dinesydd yn cael mynediad prydlon at gyfiawnder yn unol â'u gwahanol anghenion, boed y dinasyddion hynny'n ddioddefwyr troseddau neu'n dyst iddynt, yn ddiffynyddion a gyhuddwyd o gyflawni troseddau, yn ddefnyddwyr mewn dyled, yn blant mewn perygl o niwed, yn fusnesau sydd mewn anghydfodau masnachol neu'n unigolion sy'n mynnu eu hawliau cyflogaeth neu'n herio penderfyniadau cyrff y llywodraeth.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.justice.gov.uk/about/hmcts**

I bobl ag anabledd

Os oes gennych anabledd sy'n golygu bod mynd i'r llys neu gyfathrebu yn anodd i chi, ac/neu fod arnoch angen unrhyw wybodaeth ar ffurf arall, er enghraifft, print bras, cysylltwch â'r llys perthnasol a gallant eich helpu chi. I ddod o hyd i fanylion cyswllt ar gyfer yr holl lysoedd, ewch ar-lein i **hmctscourtfinder.justice.gov.uk**

© Hawlfraint y Goron 2012